# LC1333

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006

Mae’n ofynnol i’r holl sefydliadau sy’n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon gael eu hachredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. O dan Reoliad 7(2) o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"), ni chaiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru achredu sefydliad sy’n darparu cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ar wahân i sefydliad sy’n bodloni meini prawf a gaiff eu dynodi o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r Offeryn hwn yn nodi’r meini prawf ar gyfer achredu ynghyd â meini prawf ar gyfer tynnu achrediad yn ôl o dan reoliad 7(3). Gwneir yr Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog 29 – Is-ddeddfwriaeth nad yw’n ofynnol ei gwneud o dan Offeryn Statudol - ac fe’i cyflwynir i’r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 29.3(ii).

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn ôl Rheoliad 7(4) o Reoliadau 2004 mae’n rhaid i’r Cynulliad ymgynghori â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru cyn nodi unrhyw feini prawf o dan reoliad 7(2) neu (3) o Reoliadau 2004. Mae’r Offeryn yn nodi y cynhaliwyd ymgynghoriad o’r fath a chredir y dylid diwygio’r rhaglith i nodi y cynhaliwyd yr

ymgynghoriad angenrheidiol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gall y mân gamgymeriad drafftio a gyfeiriwyd ato uchod gael eu cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 27 Mehefin 2006